# GWELLA ANSAWDD DŴR AFONYDD

PAPUR TRAFOD DŴR CYMRU

Dŵr Cymru Welsh Water

GORFFENAF 2022

# CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL 3

CYFLWYNIAD 4

TYSTIOLAETH O'R ANGEN AM DDULL CYDWEITHREDOL O FYND ATI 5

TARGEDU BUDDSODDIAD AC YMYRAETHAU YN YR AFONYDD MWYAF SENSITIF YN GYNTAF 6

DULL GWEITHREDU AR SAIL DALGYLCH 8

DULL CYDWEITHREDOL O WEITHREDU 8

BUDDSODDIAD DŴR CYMRU 10

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae hi'n glir fod cwsmeriaid, rhanddeiliaid, y Llywodraeth, cwmnïau preifat a rheoleiddwyr oll yn cytuno bod angen gwneud rhagor i wella ansawdd ein hafonydd. Mae pa mor gyflym y mae'r gwelliannau hynny'n cael eu cyflawni'n dibynnu ar gydweithio, uchelgais a gweithredu.

Mae'r papur hwn yn cynnig:

- Ymdrech gydweithredol ar y cyd â nod gyffredin o wella ansawdd dŵr afonydd trwy dargedu'r pump ACA afonol yng Nghymru sy'n methu â chyflawni'r safonau.
- Cytuno ar frys ar sylfaen o dystiolaeth a fydd yn caniatáu i'r holl sectorau sy'n cael effaith ar yr afonydd dargedu eu buddsoddiad yn effeithiol.
- Datblygu strwythur "hawlenni dalgylch" fel y gellir teilwra dull aml-sectoraidd i bob dalgylch ei ddilyn er mwyn sicrhau'r manteision amgylcheddol gorau.
- Bod pob sector yn cynyddu eu buddsoddiad er mwyn ariannu gwelliannau, ond bod hynny'n aros yn gymesur ac yn fforddiadwy.

Bwriedir i'r ddogfen hon ategu'r drafodaeth am ansawdd dŵr afonol yng Nghymru, a byddai Dŵr Cymru'n croesawu unrhyw ymatebion a chynigion pellach. Dylid anfon ymatebion at **welshwater2050@dwrcymru.com** erbyn 16 Medi. Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i glustnodi fforwm priodol ar gyfer rhannu'r adborth a gawn.

Tynnodd yr Uwchgynhadledd Ffosffad a gynhaliodd y Prif Weinidog ar 18 Gorffennaf 2022 yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, randdeiliaid sy'n cael effaith ar ansawdd y dŵr yn ein hafonydd, neu y mae ansawdd y dŵr yn effeithio arnynt, at ei gilydd. Cytunodd pawb a oedd yn bresennol bod angen dull cydweithredol gan nodi eu hawydd i barhau â'r trafodaethau ar ôl yr uwchgynhadledd. Mae'r papur trafod hwn yn rhoi rhai cynigion â'r bwriad o helpu i barhau â'r trafodaethau hynny. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl grwpiau sydd â buddiant i ysgogi'r gwaith hwn.

# CYFLWYNIAD

Mae Cymru'n enwog am ansawdd amgylcheddol ei thirwedd, ei hafonydd a'i moroedd, sy'n denu ymwelwyr, yn cynnal ein diwydiannau allweddol ac yn cael eu mwynhau gan ein cwsmeriaid. Mewn ardaloedd gwledig, mae yna bwysau ar y stoc tai ac mae angen cartrefi mwy fforddiadwy er mwyn caniatáu i bobl ifanc fyw a gweithio yn eu cymunedau a helpu iddynt lewyrchu. Mae hi'n bwysig felly er mwyn ein llwyddiant economaidd parhaus a'n llesiant personol ein bod ni, fel cenedl, yn cynnal yr enw da o fod ag amgylchedd iach a phrydferth y mae eraill yn cenfigennu ato, a hynny wrth fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yma ar ran pobl Cymru.

Fel cwmni dŵr mwyaf Cymru, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn dibynnu ar amgylchedd iach, yn ein hafonydd a'r tu hwnt – i gynnal y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid. Rydym yn cydnabod yn llwyr bod angen i ni amddiffyn ein hadnoddau naturiol a chyfyngu ar unrhyw effeithiau negyddol rydym yn eu hachosi.

Bwriad y papur trafod drafft yma yw pennu'r angen am ymateb ar y cyd ar draws nifer o sectorau i'r her o wella ansawdd ein hafonydd yng Nghymru, ac mae'n cynnig bod yr ymateb hwn:

- yn pennu nod gyffredin i'r holl randdeiliaid weithio tuag ati;
- yn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth;
- yn blaenoriaethu afonydd sy'n ACA (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) a'r ardaloedd dyfrol hynny sy'n methu â chyflawni "Statws Ecolegol Da" o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- yn gofyn am ddull cydweithredol o fynd ati i ariannu gwelliannau er mwyn i'r cronfeydd cyfyngedig sydd ar gael dargedu'r ardaloedd lle maent yn fwyaf manteisiol i'r afon.

Mae yna nifer o randdeiliaid sy'n cael effaith ar iechyd ein hafonydd, ac nid un peth yn unig sy'n achosi'r broblem, felly er mwyn gwneud unrhyw welliannau o bwys i'n hafonydd, bydd angen i'r holl randdeiliaid hyn chwarae eu rhan.

Fel cenedl fechan, gallwn symud yn ystwyth trwy weithio mewn partneriaeth agos â'r holl randdeiliaid allweddol. Bydd dull cydweithredol o lywio gwelliannau yng Nghymru'n sicrhau bod cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, y Llywodraeth, perchnogion a rheolwyr tir, datblygwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill oll yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r amcanion rydym oll yn eu rhannu.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gynnal trafodaethau adeiladol â'r holl randdeiliaid dros y misoedd nesaf â'r nod o wella ansawdd ein hafonydd ar gyfer cwsmeriaid a chymunedau heddiw, ar gyfer ein heconomi, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## TYSTIOLAETH O'R ANGEN AM DDULL CYDWEITHREDOL O FYND ATI

Mae llawer o'r drafodaeth am iechyd ein hafonydd wedi deillio o'r cyfryngau yn Llundain sydd wedi codi pryderon sylweddol am iechyd afonydd ar draws y DU. Nid oes unrhyw amheuaeth fod sialensiau sylweddol yn wynebu ein dyfrffyrdd – fel effaith newid yr hinsawdd, ymlediad trefi, datblygiadau tai, effaith trin dŵr gwastraff, dŵr ffo oddi ar ffyrdd, hen danciau septig, dŵr o hen fwyngloddiau, ac arferion defnydd tir yng nghefn gwlad, gan gynnwys amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Er bod rhan helaeth o'r drafodaeth yn Lloegr wedi tynnu sylw at y ffaith taw cwta 14% o'r afonydd yn Lloegr sy'n cyflawni "Statws Ecolegol Da", nid yw'r broblem yng Nghymru mor ddwys, ond mae'n dal i fod yn annerbyniol â chwta 44% o'r afonydd yn cyflawni statws "Da". Mae'r sefyllfa yma'n well nag yn Lloegr felly, ond mae hi ymhell o fod yn ddigon da.

O dybio bod yr holl sectorau a rhanddeiliaid yn cytuno fod yna broblem, mae hi'n bwysig mynd at wraidd y broblem fel y gellir datblygu atebion, dod o hyd i fuddsoddiad a gweithredu ar sail hynny.

Ni allwn guddio rhag y ffaith fod ewtroffigedd ein hafonydd yn cael effaith andwyol ar ansawdd eu dŵr a'u hecoleg. Ni allwn hawlio chwaith bod y camau a gymerwyd hyd yn hyn wedi bod yn ddigon i wella'r sefyllfa'n sylweddol. Mae'r broblem yn gymhleth ac mae sawl ffactor yn cyfrannu ati. Y brif broblem yw bod un darn o ddalgylch penodol yn wahanol iawn i ddarn arall o afon mewn dalgylch arall – ac mae'r atebion llawn mor gymhleth ac amlweddog hefyd.


Mae cymryd camau nad ydynt yn gydlynol, sy'n seiliedig ar un sector yn unig, neu'n unochrog o du un cwmni neu sefydliad ar ei ben ei hun, felly yn annhebygol o symud y deial tuag at afonydd mwy iach. O ganlyniad i hyn, ar ei orau, gallai dull cyffredinol o fynd ati, yn canolbwyntio ar un safle yn unig â thargedau mwy llym, arwain at ddefnydd aneffeithlon o fuddsoddiad prin. Ar ei waethaf, ni fyddai'n dod ag unrhyw fanteision o bwys wrth gynyddu nifer yr afonydd sy'n cyflawni "Statws Ecolegol Da."

## TARGEDU BUDDSODDIAD AC YMYRAETHAU YN YR AFONYDD MWYAF SENSITIF YN GYNTAF

Mae yna naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru – sef afonydd Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Wysg a Gwy. Mae'r afonydd hyn yn cynnal rhai o fywyd gwyllt mwyaf arbennig Cymru. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (Adroddiad ar Ffosffadau yn ACA Afonol Cymru, Ion 2021), yr afon â'r lefel uchaf o fethiannau o ran ffosffadau oedd afon Wysg, ag 88% o'i hardaloedd dyfrol yn methu â chyflawni eu targedau. Methodd dros 60% o ardaloedd dyfrol afonydd Gwy a Chleddau i gyflawni eu targedau hefyd. Methodd parthau isaf afon Teifi a rhannau o afon Dyfrdwy â chyflawni'r safonau yn ogystal. Llwyddodd yr holl ardaloedd dyfrol yn y tair afon yn y gogledd – sef Eden, Gwyrfai a Glaslyn – yn ogystal ag afon Tywi, i gyflawni eu targedau.

Rydym yn awgrymu felly i gychwyn arni, y dylai'r holl sectorau sy'n cael effaith ar yr afonydd hyn roi blaenoriaeth i dargedu'r ACA afonol yma sy'n methu â chyflawni eu targedau.


Fel y dywedodd CNC yn eu hadroddiad yn 2021, "bydd angen dulliau gwahanol ar bob afon ac adran o afon". Er mwyn sicrhau bod gwelliant sylweddol yn cael ei gyflawni ar hyd yr afon i gyd, bydd angen i bob sector ddeall eu heffaith nhw ar ddarn penodol o afon benodol, ac yn ddelfrydol, cydweithio er mwyn dod o hyd i'r ateb gorau i bob afon gyda'i gilydd. Bydd hyn yn gofyn bod y rheoleiddwyr a'r Llywodraeth yn datblygu rheoliadau a chanllawiau aml-sectoraidd sy'n cymell atebion cydweithredol traws-sectoraidd lle mae'r buddsoddiad yn targedu gwella ansawdd dŵr cyffredinol yn yr afonydd dynodedig yn hytrach na rheoleiddio un sector yn dynnach na'r llall ar afon benodol, a allai fod yn aneffeithiol.




Fel man cychwyn, mae Dŵr Cymru wedi comisiynu gwaith modelu "Priodoli Ffynonellau" er mwyn clustnodi prif ffynonellau'r ffosffadau ym mhob rhan o'r pump ACA afonol sy'n methu â chyflawni eu targedau. Comisiynwyd y gwaith yma ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn y broses o ddilysu'r data, ac mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru. Isod mae canlyniadau pedair o'r pump afon, a disgwylir cyhoeddi canlyniadau afon Cleddau cyn bo hir. Mae'r holl wybodaeth i'w gweld ar wefan Dŵr Cymru (**https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/wastewater/river-water-quality/sac-rivers**)

Ond nid bwrw bai yw pwrpas y mapiau priodoli ffynonellau yma. Eu pwrpas yw llywio atebion, a dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o briodoli atebion cydlynol a chydweithredol er mwyn gwella ansawdd dŵr afonol yn yr afonydd sy'n methu mewn ffordd sy'n gost-effeithiol ac sydd â gwell tebygolrwydd o lwyddo.

Mae'r graff isod yn dangos cyfanswm y llwyth ffosfforws, a ffynonellau'r ffosfforws i bob un ohonynt. Yn amlwg, fel yr oedd Adroddiad CNC ar Ffosffadau yn ACA Afonol Cymru (Ion 2021) yn ei nodi, afon Wysg sydd â'r lefel uchaf o fethiannau oherwydd ffosffadau. Ac er na ellir diystyru effaith y gweithfeydd trin dŵr gwastraff, "defnyddiau tir gwledig" – o'n dulliau o reoli da byw a dofedod, i'r ffordd rydyn ni'n ychwanegu gwrteithiau wrth dyfu cnydau a glaswellt – yw'r ffactor cyfrannol mwyaf. Ond yn groes i'r hyn y mae llawer o adroddiadau'r cyfryngau yn ei ddweud, mae cyfraniad gorlifoedd storm cyfun (CSOs) yn fwy cyfyngedig o lawer o ran ryddhau maetholion i afon Gwy ac afon Wysg. Yn afonydd Dyfrdwy a Theifi, mae effaith gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn fwy sylweddol yn nhermau eu canran o gyfanswm y llwyth ffosffadau, ac mae CSOs yn cael rhywfaint o effaith ar afon Dyfrdwy.



Wrth edrych yn fanylach ar y data yma, mae modd cyflwyno'r data am bob adran sy'n methu ym mhob un o'r afonydd unigol. Isod rhoddir Map Priodoli afon Wysg fel esiampl.




Wrth edrych ar esiampl afon Wysg yn unig, mae hi'n glir taw cyfyngedig fydd effaith gwella'r asedau dŵr gwastraff ar yr afon yn unig wrth gyflawni statws ecolegol da. Effaith fach iawn a ddaw o ganolbwyntio ar effaith gorlifoedd o garthffosydd cyfun yn unig.

Ar afon Teifi, fe welwn fod nifer fach o weithfeydd trin gwastraff yn cael effaith ar barthau isaf yr afon, felly mae taclo'r ffosffadau sy'n deillio o'r gweithfeydd hyn yn flaenoriaeth.

Ni all unrhyw weithfeydd trin dŵr gwastraff ddileu'r ffosffadau'n llwyr. Gall yr atebion technegol gorau sydd ar gael eu cwtogi i tua 0.25mg/l o gymharu â thua 5mg/l ar ffurf heb eu trin. Fodd bynnag, mae cost hyn yn uchel yn nhermau adeiladu, cemegolion ac ynni, a'u hôl troed carbon yn fawr. Mae angen felly i ni dargedu'r safleoedd â'r effaith fwyaf yn hytrach na defnyddio'r un dull ar draws yr holl weithfeydd. Mae angen hefyd i ni ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar fyd natur nad ydynt yn cael effaith sylweddol o ran $CO_2$ lle bo modd.

## DULL GWEITHREDU AR SAIL DALGYLCH

Un cynnig i gymell cydweithio ar draws gwahanol sectorau fyddai creu "hawlenni dalgylch", yn hytrach na bod y rheoleiddwyr yn rhoi caniatâd ar sail un safle neu endid.

Gallai hynny ganiatáu i gwmnïau, sefydliadau a ffermwyr gydweithio ar atebion a fyddai'n gallu dod â'r manteision mwyaf i'r rhan yna o'r afon. Er enghraifft, gallai defnyddio deunyddiau i dynnu ffosffadau mewn Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff gostio miliynau o bunnoedd a chyflawni gostyngiad cyfyngedig yn llwyth y ffosffadau, ac o ganlyniad mae'n debyg y byddai ychwanegu'r rhain at weithfeydd carthffosiaeth llai sy'n gwasanaethau cymunedau lleol yn gwneud llai o synnwyr amgylcheddol ac ariannol na dulliau eraill o leihau'r ffosffadau mewn afonydd.

Er enghraifft, gallai Dŵr Cymru weithio gyda – ac ariannu – perchnogion tir i leihau llygredd maetholion gwasgaredig trwy leihau effaith arferion ffermio e.e. i leihau gwasgariad slyri neu ddefnydd o wrteithiau, neu trwy adeiladu gwlyptir cynaliadwy – yn hytrach na thaclo llwyth ffosfforws y gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn unig.

Gallai dull o'r fath fod yn fwy buddiol wrth wella ansawdd dŵr afonol, ac o bosib gallai ddarparu ffrwd ariannu i gynorthwyo ffermwyr i fodloni safonau amgylcheddol, gallai gynyddu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur, lleihau allyriannau carbon (â llai o brosesau trin sy'n ddwys o ran ynni) a rhyddhau buddsoddiad er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol yn y safleoedd lle byddai o'r budd mwyaf iddynt.

Gallai'r dull "hawlenni dalgylch" yma felly ddod â manteision sylweddol a chyflymu gwelliannau o ran ansawdd dŵr ein hafonydd, ond bydd yn gofyn bod y Llywodraeth, y rheoleiddwyr a rhanddieliaid di-ri, a rheolwyr tir yn benodol, yn prynu i mewn i'r peth ac yn gweithio ar y cyd.

## DULL CYDWEITHREDOL O WEITHREDU

Bydd y Byrddau Rheoli Maetholion (NMB) yn chwarae rôl mwyfwy pwysig dros y blynyddoedd sydd i ddod, ac maent eisoes i'w gweld yn llwyddo ar afon Gwy yn Sir Henffordd - lle mae'r sectorau dŵr a datblygu, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn cydweithio i adeiladu wyth ardal gwlyptir i leihau'r llwyth maetholion yn afon Llugwy (un o isafonydd afon Gwy).

Nod y dull yn Henffordd yw 'datgloi' datblygiadau trwy broses gynllunio'r Awdurdod Lleol – ar ffurf Cynllun Credydau Ffosffadau (PCS). (Mae'r PCS yn caniatáu i ddatblygwyr fuddsoddi mewn cynlluniau lleihau ffosffadau – fel gwlyptiroedd – er mwyn caniatáu i gartrefi newydd gael eu hadeiladu).

Gellid rhoi'r dull gweithredu aml-sectoraidd sydd mewn grym yn Sir Henffordd ar waith yng Nghymru i leihau maetholion o'r sector bwyd.

Croesewir dull gweithredu cydweithredol yr NMBs, ac mae hi'n sylfaen gadarn i adeiladu arni.

Fodd bynnag, gallai'r cydweithio fynd gam ymhellach, a hwyrach fod yna rôl i'r holl randdeiliaid yng Nghymru ei chwarae – gan gynnwys y cwsmeriaid:

### Y LLYWODRAETH

- gwahardd weips;
- cynnal polisi â ffocws ar wella ansawdd dŵr afonol yn gyffredinol;
- ystyried cyfyngu ar y defnydd o laswellt artiffisial mewn gerddi ac wrth ddatblygu eiddo;
- ystyried gwahardd glanedyddion sy'n seiliedig ar ffosffadau;
- ystyried Cynllun Credydau Ffosffadau i Gymru i alluogi datblygiad cynaliadwy.

## LLYWODRAETH LEOL

- hyrwyddo a chyflawni cynllun draenio trefol cynaliadwy fel Grangetown Gwyrddach yng Nghaerdydd a GlawLif yn Llanelli;
- cyflwyno gwylptiroded i leihau maetholion;
- gweithio gyda Dŵr Cymru i gadw dŵr wyneb allan o'r rhwydwaith dŵr gwastraff.

## Y RHEOLEIDDWYR

- cefnogi a chyflwyno rheoliadau i hwyluso "hawlenni dalgylch" ac yna cymell eu cyflwyno;
- cymell cydweithredu traws-sectoraidd er mwyn gwella ansawdd dŵr afonol;
- gweithio gyda chwmnïau a sefydliadau er mwyn caniatáu cyllid digonol i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru.

## Y CWMNÏAU DŴR

- datblygu sylfaen o dystiolaeth i lywio atebion ac achosion busnes;
- gweithio gyda'r rheoleiddwyr i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion arloesol i leihau effaith gweithfeydd trin ar afonydd;
- datblygu cynlluniau buddsoddi clir ar gyfer 2025-30 (a'r tu hwnt) er mwyn sicrhau nad yw CSOs yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni statws Da o ran ansawdd dŵr erbyn 2030;
- cynnal ymgyrchoedd ymddygiad cwsmeriaid er mwyn lleihau'r defnydd o weips;
- gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i gyflawni nodau cyffredin.

## Y CWSMERIAID

- peidio â defnyddio weips na ellir eu fflysio sy'n gallu achosi tagfeydd a difrod amgylcheddol;
- defnyddio glanedyddion heb ffosffadau;
- peidio â defnyddio glaswellt artiffisial a chadw cymaint â phosibl o'r tir ar eu heiddo yn wyrdd er mwyn lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n llifo i'r rhwydwaith o garthffosydd cyfun;
- cwsmeriaid Busnes i feddwl am eu heffeithiau ar ein hafonydd a'u cymryd i ystyriaeth.

## DATBLYGWYR

- hyrwyddo a chyflawni cynlluniau draenio trefol cynaliadwy fel Grangetown Gwyrddach yng Nghaerdydd a GlawLif yn Llanelli;
- cyflwyno gwlyptiroedd er mwyn lleihau maetholion.

# BUDDSODDIAD DŴR CYMRU

Mae gennym record amgylcheddol gadarn, felly rydym yn siomedig bob tro pan fo'n gwaith yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd, a byddwn ni'n ymchwilio i ddigwyddiadau o'r fath bob tro er mwyn sicrhau ein bod ni'n dysgu gwersi a fydd yn llywio ein ffordd o weithio yn y dyfodol. Dyna pam ein bod ni'n cydnabod yn glir bod mwy y gallwn ni ein hunain ei wneud i wella ansawdd y dŵr yn ein hafonydd.

Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â'n rheoleiddwyr amgylcheddol i ddatblygu'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (RhAC yng Nghymru; WINEP yn Lloegr) sy'n caniatáu i ni gynllunio a chyflawni gwelliannau amgylcheddol dros gylch ein cynllun gwaith 5 mlynedd. Cafodd targedau newydd JNCC ar gyfer ansawdd dŵr afonol mewn afonydd ACA eu cyflwyno ar ôl i'n cynllun busnes ar gyfer 2020-25 gael ei gymeradwyo. Ond diolch i'r drefn, mae llawer o'r gwaith yr oeddem eisoes wedi ei gynllunio ar afon Gwy yn helpu i gyflawni'r targedau llymach yma, er nad oedd yna gynlluniau ar y pryd i ddileu P o afon Wysg.

Rydyn ni wedi cynyddu ein buddsoddiad i wella asedau dŵr gwastraff a gorlifoedd storm cyfun problemataidd o £783m i £836m dros y pum mlynedd hyd 2025.

Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £98m i leihau Ffosfforws (P) gan dargedu'r cynlluniau a glustnodwyd yn Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (RhAC) AMP7 ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau pwysig yn Henffordd, Llanllieni, Rhaeadr Gwy, Cross Hands, Llanandras a Dinbych.

Yn ogystal â'r uchod, ac yn amodol ar gymeradwyaeth reoliadol, ein nod yw rhyddhau gwerth £100m o fuddsoddiad pellach cyn diwedd 2025 er mwyn cyflawni cynlluniau o'r cyfnod rheoliadol nesaf, sef rhwng 2025 a 2030 (AMP8), yn gynt. Bydd hyn yn cynnwys tua £60m yn rhagor i leihau ein cyfraniad o ran ffosfforws, a buddsoddiad o £40m mewn gorlifoedd storm. Byddai hyn yn cynnwys lleihau ffosfforws yn y Fenni, Aberhonddu, Treletert, Llanybydder, Trefynwy a Chasblaidd, er mwyn cynorthwyo gwelliannau ar afonydd Wysg, Gwy, Cleddau a Theifi.